# Sut i Ysgrifennu
# Traethawd Hanes

**Gareth Affleck yn bwrw golwg ar y dechrau, y canol a'r diweddglo**

Ysgrifennu traethodau yw prif weithgaredd Hanes Safon Uwch. Faint bynnag fyddwch yn ei wybod, chewch chi ddim canlyniad da os na ellwch chi ysgrifennu traethawd da. Yn anffodus, dydy ysgrifennu popeth wyddoch chi am bwnc ddim yn gwneud traethawd da. Bydd arholwyr Safon Uwch yn disgwyl pethau fel ateb y cwestiwn, dadansoddi yn hytrach na thraethu, a chynnwys gwybodaeth fydd yn cynnal eich safbwynt. Oni bai eich bod yn dalentog dros ben, mae'r sgiliau hyn yn cymryd amser i'w meistroli ac, yn yr ymdrechion cynnar, mae cael marciau gwael yn beth cyffredin. Yn ffodus iawn, fodd bynnag, mae'r sgiliau hyn yn rhai y gellwch eu dysgu. Er bod pob traethawd unigol yn gofyn am ateb unigryw, mae yna dechnegau sy'n gyffredin i bob traethawd a fydd yn sicrhau nad ewch chi'n bell oddi ar y llwybr. Yn gyntaf, dyma rai pwyntiau cyffredinol.

## Darllen y cwestiwn

Mae hwn yn bwynt sy'n ymddangos yn rhy amlwg i sôn amdano. Ond, bob blwyddyn, mae rhai myfyrwyr yn gweld rhyw air neu ddywediad yn y teitl ac yn mynd ati i ysgrifennu ateb parod, heb ystyried a yw'n ateb y cwestiwn yn hollol. Daw hyn yn amlwg ar unwaith i'r person sy'n darllen y traethawd, a nifer fechan o farciau sy'n cael eu rhoi. Darllenwch y cwestiwn sawl gwaith er mwyn sicrhau eich bod yn deall beth mae'n ei ofyn.

## Dadansoddi'r cwestiwn

Ar ôl darllen y cwestiwn, dylech ei ddadansoddi. Mae hyn yn hollbwysig – bai cyffredin yw methu gwahaniaethu rhwng yr hyn mae'r cwestiwn yn ei ofyn ac union nod y cwestiwn. Trwy rannu'r teitl yn ddau, sef y geiriau allweddol (y mater i'w ystyried) a'r geiriau sy'n benodol i'r pwnc (y prif ddeunydd), gellwch sicrhau eich bod yn ateb y cwestiwn ar ei ben, yn lle traethu'n syml am ddigwyddiadau. Dyma ddwy enghraifft i ddangos sut mae hyn yn gweithio:

- Eglurwch y cymhellion a ddylanwadodd ar bolisïau crefyddol Louis XIV.
  Y prif bwnc – polisïau crefyddol Louis XIV
  Y gair allweddol – cymhellion

- I ba raddau y bu polisi tramor Harri'r Seithfed yn llwyddiannus?
  Y prif bwnc – polisi tramor Harri'r Seithfed
  Y gair allweddol – llwyddiannus?

## Cynllunio

Heb unrhyw amheuaeth, dyma'r rhan bwysicaf o ysgrifennu traethawd. Eich cynllun sy'n pennu'ch agwedd wrth ateb y cwestiwn. Os byddwch wedi ysgrifennu'r cynllun yn iawn, yna byddwch yn gwybod yn union beth fydd eich ateb; nid rhywbeth i'w bennu wrth ysgrifennu'r traethawd yw cynllun.

Yn bwysicach o lawer, bydd y cynllun yn sicrhau eich bod yn ateb y cwestiwn ar ei ben. Rhaid i bopeth fod yn berthnasol i'r cwestiwn. Heb gynllun, mae'n rhwydd iawn i chi fethu canolbwyntio ac ysgrifennu lol amherthnasol. Peidio ag ateb y cwestiwn yw prif fai traethodau Safon Uwch, a hoff ddifyrrwch llawer o athrawon yw tynnu llinell drwy ran enfawr o draethawd ac ysgrifennu'r gair 'amherthnasol' ar ymyl y ddalen! Ysgrifennwch gynllun da, a fydd hyn ddim yn digwydd i chi.

## Cyflwyno

Unwaith y byddwch wedi ysgrifennu'r cynllun, rydych yn barod i roi cynnig arni. Sut mae mynd ati i ddechrau traethawd? Yn anffodus, does dim rheol aur – bydd yn dibynnu llawer ar bob teitl yn unigol. Fodd bynnag, mae un peth yn sicr: rhaid i'ch cyflwyniad wneud argraff dda. Dyma'r peth cyntaf y bydd pobl yn ei ddarllen: os na fydd yn gafael yn eu dychymyg, rhaid i weddill y traethawd fod y tu hwnt o dda i achub y sefyllfa. Yn ddelfrydol, dylai'r cyflwyniad i'ch traethawd eu goglais, a gadael yr argraff, 'Wel, dyma ferch sy'n gwybod ei stwff. Rwy'n awyddus i ddarllen mwy'. Man lleiaf, dylai amlygu'ch gafael ar y pwnc. O ddewis, dylai fod

yn fyr hefyd – os yw'r cyflwyniad lawer yn hwy na thraean tudalen, rydych wedi camddeall. Felly, wrth wynebu'r dudalen wag, beth ydych chi'n bwriadu ei ysgrifennu?

Gadewch i ni edrych ar y cwestiwn hwn: 'Yn y flwyddyn 1680, rhoddwyd y teitl 'Mawr' i'r brenin Louis XIV. O ystyried ei deyrnasiad ar ei hyd, a oedd yn haeddu'r teitl hwn?'

Y ffordd ddiogel o gyflwyno yw nodi'ch bwriad: sef, rhoi crynodeb mewn ychydig frawddegau o'r hyn mae'r cwestiwn yn ei ofyn, a dweud sut ydych chi'n mynd i'w ateb. Dydy'r dull hwn ddim yn debyg o gyffroi'r arholwr, ond cyhyd â'ch bod chi wedi dynodi'r mannau allweddol i'w harchwilio (a fydd wedi eu pennu yn eich cynllun), yna byddwch wedi dechrau'n foddhaol.

Dull arall yw nodi'ch ateb yn eglur yn y cyflwyniad, gan fynd ati weddill y traethawd i brofi'ch pwynt. Mae'r dull hwn yn llawer mwy cyffrous gan ei fod yn dangos bod gennych safbwynt pendant a'ch bod yn barod i ddadlau'ch achos. At hyn, mae'n dangos i'r arholwr eich bod wedi cynllunio'r traethawd, eich bod yn gwybod beth i'w ddweud a'ch bod, yn fwy na thebyg, yn barod i ategu â thystiolaeth gadarn.

Mae'r math olaf o gyflwyniad yn dibynnu llawer mwy ar yr unigolyn. Gallech ddyfynnu rhywbeth diddorol, disgrifio digwyddiad o bwys, dadlau yn erbyn y cwestiwn neu gyflwyno golygfa drawiadol. Mae'n anodd ei ddiffinio, ond effaith cyflwyniad o'r fath fydd dangos bod gennych feistrolaeth lwyr ar y pwnc, eich bod yn deall y materion hanfodol, a'ch bod yn mynd i ddelio â'r cwbl yn drylwyr.

Bydd cyflwyniad fel yma yn hudo darllenwyr, yn gwneud argraff ac yn peri iddynt ddyheu am gael gwybod mwy. Mae hefyd yn anodd iawn ei ysgrifennu! Nid pawb fydd yn gallu gwneud hyn ond, wrth ddilyn rhai o'r canllawiau uchod, byddwch yn osgoi cymryd cam gwag cyn dechrau.

## Y Canol

Canol y traethawd yw corff y gwaith, lle byddwch yn profi'ch pwynt. Ar ôl cynllunio'r traethawd, dim ond llanw'r bylchau fydd yr adran hon oherwydd bod y gwaith pennaf wedi'i wneud ymlaen llaw. Byddwch yn gwybod pa baragraffau sydd gennych i'w hysgrifennu a pha wybodaeth i'w defnyddio. Ond cofiwch, serch hynny, mai llunio dadl ydych chi, nid traethu stori. Rydych eisoes wedi adnabod y geiriau allweddol yn y cwestiwn – dyma'r amser i'w defnyddio. Rhaid i bob paragraff gyfeirio rywsut neu'i gilydd at y geiriau allweddol neu bydd yn amherthnasol. Byddwch yn ddidostur – bydd gennych lawer mwy o wybodaeth nag sy'n angenrheidiol, ac mae'n hanfodol dethol yn ofalus a defnyddio dim ond yr hyn sy'n cefnogi'ch safbwynt.

Ar yr un pryd, rhaid i chi osgoi ysgrifennu traethawd sy'n cynnwys dim ond dadleuon. Peidiwch â gwneud unrhyw honiadau di-sail. Rhaid cael ffaith neu enghraifft i gefnogi pob dim yn eich traethawd, neu dim ond malu awyr fyddwch chi. Y cydbwysedd hwn rhwng dadansoddiad a manylion cefnogol yw hanfod y grefft o ysgrifennu traethawd, ac mae'n cymryd amser i'w dysgu. Unwaith y byddwch wedi meistroli'r grefft, byddwch yn siwr o lwyddo.

## Dyfynnu

Ar ôl eich llafur caled yn paratoi nodiadau byddwch, wrth reswm, am eu defnyddio yn eich traethawd – dyna pam wnaethoch chi'r holl waith. Serch hynny, rhaid i chi fod yn ofalus iawn wrth ddefnyddio dyfyniadau. Ni ddylid ond eu defnyddio mewn trafodaeth ynghylch safbwyntiau gwahanol haneswyr, e.e. 'Dywed Davies hyn a'r llall …, ond dywed Williams fel arall …' neu i grynhoi dadl a brofwyd eisoes. Yn sicr, mae defnyddio dyfyniadau i brofi pwynt yn hollol anghywir. Y ffordd fwyaf cyffredin o ddyfynnu yw, 'Dywed Davies y peth a'r peth…' heb unrhyw wybodaeth bellach. Dydy hyn ddim yn profi'ch pwynt. Pa mor wych bynnag yw hanesydd, dydy dyfynnu o'i waith ddim yn brawf. Dydy dweud bod Davies wedi dweud rhywbeth ddim yn profi bod geiriau'r hanesydd yn wir. Os am ddyfynnu, rhaid i chi ategu'r dyfyniad â ffeithiau neu enghreifftiau perthnasol, yn union fel pe bai'r dyfyniad yn eiriau o'ch gwaith eich hun; chewch chi ddim marciau am nodiadau wedi'u dysgu'n berffaith ar eich cof.

## Diweddglo

Y diweddglo yw eich crynodeb o bob dim a ddywedwyd gennych yn eich traethawd. Mae'n gwbl hanfodol – peidiwch bydd â'i anghofio. Dyma'r peth olaf y bydd arholwyr yn ei ddarllen ac mae'n werth llawer. Gall diweddglo da wneud iawn am draethawd tila, a gall goroni traethawd gwych. Yn y diweddglo, byddwch yn dilyn eich holl ymresymu i'w derfyn rhesymegol ac yn clensio'ch dadl, heb adael unrhyw amheuaeth ynghylch eich union ateb. Dylech gyfeirio'n benodol at y geiriau allweddol yn y cwestiwn, a phwysleisio'r pwyntiau a wnaethoch yng nghorff y traethawd. Yn bennaf oll, ni ddylai'r diweddglo gynnwys unrhyw wybodaeth newydd – ailadrodd eich dadl yw diben y diweddglo. Os na chafodd rhywbeth neu'i gilydd sylw gennych eisoes, mae bellach yn rhy hwyr!

**Athro Hanes yn Ysgol Ramadeg Stockport yw Gareth Affleck**

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today o *History Review*, Medi 1996: *How To Write An Essay*, Gareth Affleck.

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

**Golygydd**: Gwenda Lloyd Wallace
**Dylunydd**: Richard Huw Pritchard
**Cyfieithydd**: H. Eurgain Rowlands

Diolch i Robin Evans, Nia Goode, Carole Bryan James a Geraint Jones (y monitoriaid) am eu harweiniad gwerthfawr.